**Mark Drakeford AC/AM**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid**
**Cabinet Secretary for Finance**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA – P/MD/0457/18

Simon Thomas AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid

7 Chwefror 2018

Annwyl Simon

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 8 Rhagfyr ynglŷn ag ymchwiliad y Pwyllgor ar danwariant sy'n deillio o benderfyniadau'r Bwrdd Taliadau.

Fel yr ydych chi'n gwybod, mae Llywodraeth Cymru'n gyfrifol am osod cynigion y gyllideb flynyddol a'r gyllideb atodol o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ac am gynnwys yn y cynigion cyllidebol hynny gyllidebau pob corff a ariennir yn uniongyrchol gan Gronfa Gyfunol Cymru.

Mae'r rheolau ar gyfer gosod y gyllideb ar gyfer pob corff a ariennir yn uniongyrchol gan Gronfa Gyfunol Cymru i'w cael mewn Rheolau Sefydlog. Maent yn sicrhau bod cyllidebau a gwariant yn destun craffu priodol gan y Cynulliad a bod cyrff yn atebol am y cronfeydd a ddefnyddir ganddynt.

Defnyddir yr wybodaeth a gyhoeddir ac y cytunir arni o dan y trefniadau hynny gan Lywodraeth Cymru i lunio'r gyllideb, a chael cytundeb ffurfiol arni, yng nghynigion y gyllideb flynyddol a'r gyllideb atodol.

Mae Llywodraeth Cymru yn gyfrifol hefyd am adrodd i Drysorlys EM ynglŷn â chyllideb bloc Cymru yn gyfan, gan gynnwys cyfanswm y tanwariant bob blwyddyn, ac mae'n rheoli'r trefniadau ar gyfer cario unrhyw danwariant drosodd. O ran y trefniadau ymarferol, mae sianeli cyfathrebu wedi'u sefydlu rhwng swyddogion pob corff a ariennir yn uniongyrchol a Llywodraeth Cymru i sicrhau bod y sefyllfa yn ystod y flwyddyn yn cael ei rheoli'n effeithiol.

Roedd diddordeb gennyf ddarllen adroddiad y Pwyllgor ar Gyllideb Ddrafft Comisiwn y Cynulliad a'r wybodaeth a ddarparwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru yr oeddech chithau wedi'i chynnwys yn eich llythyr. Ni fyddai'n briodol imi fynegi barn am sut y dylai

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru
Correspondence.Mark.Drakeford@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Comisiwn y Cynulliad osod ei gyllideb a sicrhau cytundeb arni, ond hoffwn gynnig y sylwadau a ganlyn.

Fel yr ydych chi'n gwybod, mae Llywodraeth Cymru wedi cymryd amryw o gamau dros y blynyddoedd i fod yn fwy tryloyw mewn perthynas â'i chyllideb. Mae hyn yn arbennig o bwysig yn ystod cyfnod o gyni cyllidol, pan fo cyllidebau'r sector cyhoeddus yn cael eu gwasgu'n gynyddol. Byddwn i'n croesawu unrhyw fesurau i sicrhau bod mwy o dryloywder ar draws y cyrff eraill a ariennir gan Gronfa Gyfunol Cymru.

Mae ein hagwedd at dryloywder yn Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio at y dibenion y pleidleisiwyd drostynt a bod amcangyfrifon o wariant yn gadarn ac yn realistig. Wrth gynnig cyllidebau, rydym yn manteisio ar y dystiolaeth orau bosibl sydd ar gael inni ar gyfer llywio ein cynlluniau.

O ran yr agweddau mwy technegol ar adrodd ar danwariant a'i ddefnyddio, bydd Cronfa Wrth Gefn Cymru yn darparu'r mecanwaith ar gyfer cario tanwariant drosodd o un flwyddyn i'r nesaf. Bydd tanwariant gan bob corff a ariennir o Gronfa Gyfunol Cymru ar ddiwedd y flwyddyn yn mynd i'r Gronfa Wrth Gefn. Gall pob corff gynnig a gofyn am newidiadau i'w cyllidebau yn ystod y flwyddyn drwy broses y gyllideb atodol, a rheolir gofynion cyllid atodol yn ystod y flwyddyn gan Lywodraeth Cymru wedi i'r Cynulliad graffu ar gynnig y corff.

Gan mai symiau bach sydd wedi bod o dan sylw yn achos cyrff eraill a ariennir yn uniongyrchol, mae'r dull hwn wedi gweithio'n dda hyd yma. Fodd bynnag, os bydd lefelau tanwariant a/neu y cais am adnoddau yn ystod y flwyddyn yn cynyddu (a allai ddigwydd o dan yr awgrym a gyflwynwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru), byddai'n rhaid inni sicrhau bod lefel gymesur o lywodraethiant yn gysylltiedig â'r broses hon i alluogi Llywodraeth Cymru i barhau i reoli sefyllfa'r Gronfa Wrth Gefn yn effeithiol ac i sicrhau nad yw adnoddau yn ystod y flwyddyn yn cael eu peryglu. Yn ymarferol, byddwn yn disgwyl gweld hyn yn cael ei adlewyrchu drwy wella'r llinellau cyfathrebu clir sydd eisoes wedi'u sefydlu rhwng swyddogion y cyrff perthnasol.

Gobeithio y bydd yr wybodaeth hon yn ddefnyddiol i chi.

Cofion gorau

Mark

**Mark Drakeford AC/AM**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid
Cabinet Secretary for Finance